## Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

### 1 Diben

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Diffinnir rôl ac aelodaeth y Pwyllgor yn y Cylch Gwaith (Atodiad 1). Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd annibynnol i Swyddog Cyfrifyddu CDFfC. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu, wedi'u hategu gan ganlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Chwaraeodd y Pwyllgor rôl allweddol mewn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd.

1.2 Crëwyd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CDFfC ar 1 Ionawr 2025 gan Orchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn disodli Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CDFfC. Fodd bynnag, o ganlyniad i amseriad penodi Cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ni chynhaliodd y pwyllgor unrhyw gyfarfodydd yn ystod 2024-25.

1.3 Diffinnir rôl ac aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu Cylch Gwaith unigol (Atodiadau 1 a 2). Prif rôl y Pwyllgorau hyn yw rhoi cyngor a sicrwydd annibynnol i Swyddog Cyfrifyddu CDFfC. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu, wedi'u hategu gan ganlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Chwaraeodd y Pwyllgor rôl allweddol mewn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut oedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi cyflawni ei gyfrifoldebau yn ystod 2024-25 a chanlyniad gwaith i wella prosesau llywodraethu a rheoli'r sefydliad ymhellach. Bwriedir i'r adroddiad roi sicrwydd i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu sydd i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CDFfC ar gyfer 2024-25.

### 2 Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2024-25

<u>Aelodaeth</u>

2.1 Drwy gydol 2024-25, gwasanaethais fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gwasanaethodd Frank Cuthbert a Dianne Bevan fel Aelodau o'r Pwyllgor. Mae Frank Cuthbert a Dianne Bevan yn Aelodau o CDFfC ac rwyf innau'n Ddirprwy Gadeirydd CDFfC. Fe'm penodwyd am gyfnod o 3 blynedd o 1 Mawrth 2022 tan 28 Chwefror 2025. Penodwyd Frank Cuthbert am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2025. Penodwyd Dianne Bevan am gyfnod o 3

blynedd o 1 Mehefin 2022 tan 31 Mai 2025. Yn ystod 2024-25, Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd Andrew Blackmore a Kalwant Grewal, a benodwyd ill dau am gyfnodau o 3 blynedd o 1 Ionawr 2024 tan 31 Rhagfyr 2026.

2.2 Penodwyd Andrew Blackmore yn Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Mawrth 2025 am gyfnod o 4 blynedd tan 17 Mawrth 2029. Yn dilyn y penodiad hwn, ymddiswyddais innau a Frank Cuthbert fel Cadeirydd ac Aelod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn y drefn honno. Arhosodd Dianne Bevan fel Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, arhosodd Kalwant Grewal fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymunodd Bethan Price â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel aelod yn dilyn ei phenodiad fel aelod o CDFfC.

2.3 Mynychodd yr Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru) a'r Archwilwyr Mewnol (TIAA Ltd.) yr holl gyfarfodydd i roi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor.

<u>Cyfarfodydd</u>

2.4 Trefnwyd tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn – 21 Awst 2024, 26 Tachwedd 2024, a 4 Mawrth 2025. Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ar 23 Medi 2024 i ystyried Adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Gyfrifon 2023-24 ac i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24. Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn gymysgedd o bresenoldeb wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams. Fe wnaeth Frank Cuthbert, Kalwant Grewal, Andrew Blackmore a minnau fynychu'r holl gyfarfodydd. Ni allai Dianne Bevan ddod i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Awst 2024, ond mynychodd yr holl gyfarfodydd eraill. Mynychodd Bethan Price y cyfarfod ar 4 Mawrth, sef yr unig gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod cyfnod ei phenodiad.

2.5 Mae cofnodion y Pwyllgor yn rhoi manylion y cyfrifoldebau a ddyrannwyd a'r dyddiadau cwblhau ar gyfer camau gweithredu cytunedig. Mae hyn yn ffordd fwy effeithlon o lawer o olrhain cynnydd camau gweithredu cytunedig i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau fel y cynlluniwyd neu eu dwyn ymlaen. Cyhoeddir cofnodion y Pwyllgor ar wefan CDFfC.

## 3 Yr amgylchedd rheoli

<u>Archwilio Mewnol</u>

3.1 Penodwyd Archwilwyr Mewnol CDFfC, sef TIAA Ltd., yn 2020 yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol ar gyfer contract 5 mlynedd. Yn gyntaf, gwnaethant gyflwyno eu cynllun archwilio 5 mlynedd ar gyfer 2020/21 ymlaen yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2020. Mae cwmpas y gwaith archwilio ar gyfer y 5

mlynedd yn canolbwyntio ar Lywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg a Systemau Ariannol (gan gynnwys caffael), sydd i'w harchwilio'n flynyddol, a hefyd rhaglen archwilio dreigl sy'n ymdrin â'r agweddau eraill ar waith a rheolaethau CDFfC, sef:

- Arolygon CDFfC a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG);
- Rheolaethau Strategol;
- Rheolaethau Ariannol Allweddol;
- Ymateb i'r Pandemig;
- Adnoddau Dynol;
- Cydymffurfio â Diogelu Data;
- Rheolaethau Cyffredinol TGCh, a
- Blaenraglen Waith.

3.2 Mae gwaith archwilio mewnol yn cael ei wneud trwy drafod gydag aelodau staff priodol, darllen dogfennau a phrofi, fel y bo'r angen, i gadarnhau effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith. Cynhelir archwilio mewnol gydag ymwybyddiaeth briodol o risgiau twyll a llygredigaeth yn y prosesau sy'n cael eu harchwilio. Pan fydd y gwaith archwilio mewnol wedi'i gwblhau, trafodir y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion mewn cyfarfod ymadael a drefnwyd o flaen llaw cyn i'r adroddiad archwilio mewnol gael ei lunio, ei gytuno â'r rheolwyr a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

3.3 Yn ystod 2024-25, adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan TIAA:

**Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2024-25**

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth frys | Blaenoriaeth bwysig | Blaenoriaeth arferol | |
| Parhad Busnes | Hydref 2024 | - | - | 1 | Sylweddol |
| Rheolaethau Cyffredinol TGCh | Hydref 2024 | - | - | - | Sylweddol |
| Pwerau Newydd | Hydref 2024 | - | - | - | Sylweddol |

**Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn 2024-25**

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth frys | Blaenoriaeth bwysig | Blaenoriaeth | |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Chwefror 2025 | - | - | - | Sylweddol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arolygon Cymunedol | Chwefror 2025 | - | - | - | Sylweddol |

3.4 Rhoddodd yr adroddiad archwilio canol blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol ar gyfer Parhad Busnes, Rheolaethau Cyffredinol TGCh a Phwerau Newydd a gwnaed un argymhelliad archwilio.

3.5 Rhoddodd yr adroddiad archwilio diwedd blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol ar gyfer Rheolaethau Ariannol Allweddol ac Arolygon Cymunedol ac ni wnaed unrhyw argymhellion archwilio.

3.6 Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod trefniadau CDFfC yn lleihau ei amlygiad i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol rheolwyr CDFfC.

3.7 Rhoddodd yr adroddiad archwilio dilynol ar gyfer 2024-25 ymateb cadarnhaol i weithredu argymhellion y flwyddyn flaenorol, gan fod 4 o'r 5 argymhelliad a oedd yn weddill wedi cael eu gweithredu a'r argymhelliad a oedd ar ôl yn symud ymlaen tuag at gael ei weithredu.

3.8 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu'r argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2024-25, nodwyd bod mwyafrif yr argymhellion archwilio allanol a mewnol wedi cael eu gweithredu. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd ar weithredu unrhyw argymhellion sy'n weddill.

3.9 Mae ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn trwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion, a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod cyfrinachol blynyddol rhwng yr Aelodau a'r Archwilwyr Mewnol yn dilyn cyfarfod Pwyllgor 4 Mawrth 2025, a chwblhaodd ymarfer asesu effeithiolrwydd archwilio mewnol blynyddol a rhestr wirio gwerthuso arfer da Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Ar sail y rhain, aseswyd bod y perfformiad Archwilio Mewnol yn effeithiol.

Archwilio Allanol

3.10 Archwilydd Allanol CDFfC yw Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cafodd y casgliadau Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 a gynhwyswyd yn Llythyr Rheoli Archwilio Cymru eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 23 Medi 2024. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2023-24. Gwnaeth yr adroddiad 2 argymhelliad archwilio.

3.11 Ystyriwyd Cynllun Archwilio 2025 Archwilio Cymru ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2024-25 CDFfC yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025.

Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

3.12 Yn ystod 2024-25, cwblhaodd Aelodau'r Pwyllgor eu hymarfer Hunanasesu Effeithiolrwydd blynyddol. Dangosodd canlyniad yr ymarfer fod cydymffurfedd ag arfer da wedi'i ddangos ym mhob maes, er y nodwyd y byddai angen adolygu'r ymarfer ymhellach i ystyried cyfrifoldebau ychwanegol CDFfC.

3.13 Cafodd CDFfC sicrwydd hefyd trwy dderbyn adroddiadau yn manylu ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ynghyd â chopïau o gofnodion y cyfarfodydd.

## 4 Cydweithredu rhwng yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol

4.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod cwmpas yr archwiliad yn effeithlon ac effeithiol. Cadarnhawyd hyn trwy arsylwi a gwerthuso drwy gydol y flwyddyn ac yn y cyfarfod cyfrinachol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025.

## 5 Llywodraethu Corfforaethol

5.1 Yn ystod 2024-25, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi parhau i gynnal safonau uchel o Lywodraethu Corfforaethol a rheolaethau mewnol. Yn ystod 2024-25, roedd y Pwyllgor:

- Wedi adolygu ei Gylch Gwaith a llunio Cylch Gwaith newydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Wedi adolygu ei Gynllun Gwaith Blynyddol a llunio Cynllun Gwaith Blynyddol newydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Wedi parhau â'r arfer o ofyn i'w Aelodau gwblhau holiadur hunanasesu blynyddol.
- Wedi parhau â'r arfer o gynnal cyfarfod cyfrinachol blynyddol rhwng yr Aelodau a'r Archwilwyr.
- Wedi cadarnhau effeithiolrwydd Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn trwy gynnal yr ymarfer asesu archwilio mewnol blynyddol.
- Wedi derbyn adroddiadau Diogelwch TGCh gan gymorth technegol CDFfC (Cymwysterau Cymru) mewn perthynas â'i system TGCh newydd.
- Wedi derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu'r argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod.
- Wedi derbyn adroddiad ar restr CDFfC o golledion ar gyfer 2023-24.
- Wedi derbyn adroddiad ar ymarfer dilysu asedau sefydlog CDFfC ar gyfer 2024-25.

- Wedi derbyn adroddiadau ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Wedi cadarnhau bod CDFfC wedi cynnal systemau boddhaol ar gyfer monitro'r gyllideb, adolygu rheoli risg, chwythu'r chwiban a thwyll, diogelwch data TG a rhoddion a lletygarwch.
- Yn fodlon y gallai Swyddog Cyfrifyddu CDFfC fod yn rhesymol sicr bod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu CDFfC yn 2024-25 yn rhoi sail gadarn a rhesymol iddi gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

## 6 Rheoli Risg

6.1 Mae ymagwedd CDFfC at reoli risg wedi dangos ei bod yn ddull effeithiol o amlygu a lliniaru risgiau ac mae'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd wedi cael eu canmol gan archwilwyr CDFfC. Adolygwyd y Gofrestr Risg ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2024-25. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon bod y gofrestr yn ddogfen fyw a'i bod yn adlewyrchu'r risgiau sy'n wynebu CDFfC yn gywir wrth iddynt ddod i'r amlwg, a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi'r camau rheoli a gymerwyd i liniaru a dileu'r risgiau.

6.2 Yn ystod 2024-25, y prif risgiau a amlygwyd ac a reolwyd gan CDFfC oedd:

| **Risg a Amlygwyd** | **Camau Gweithredu Lliniarol** |
|---|---|
| Nid yw'r Comisiwn yn cynnal enw da a pherthynas waith a chyfathrebu da â phrif gynghorau ac uwch randdeiliaid fel Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Un Llais Cymru, Aelodau'r Cynulliad. | Cyfarfodydd misol rhwng y Cadeirydd a Llywodraeth Cymru.<br>Cyfarfodydd cyswllt deufisol rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a Llywodraeth Cymru.<br>Sesiynau briffio ar gyfer Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid allweddol cyn Arolwg y Senedd.<br>Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau mawr i bolisïau.<br>Ymrwymiad i ymgynghori ynglŷn â Pholisi ac Ymarfer ar gyfer y Rhaglen Arolygon newydd wedi'i gynnwys yn y llythyr at Brif Swyddogion Gweithredol prif awdurdodau.<br>Canfyddiadau Ymchwil ERP i'w cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. |
| Dim digon o adnoddau wedi'u darparu i reoli prosiectau a gweithredu'r swyddogaethau newydd sydd i'w trosglwyddo i'r Comisiwn h.y. Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Bwrdd Rheoli Etholaethol ac Arolygon Ffiniau'r Senedd | Cysylltu a chynnal cyfarfodydd ag adran noddi Llywodraeth Cymru, yr Uned Cyrff Cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol.<br>Sicrhau bod risgiau a phryderon yn cael eu hamlygu yn y grŵp cynllunio (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol/CDFfC).<br>Gosod y Flaenraglen Waith bosibl fel eitem ar agenda cyfarfodydd y Comisiwn, gan gynnwys cynnal ei chofrestr risg ei hun. Mae bellach wedi cael ei chynnwys fel busnes yn ôl yr arfer.<br>Cynllunio'r gyllideb bob 3 blynedd.<br>Amlinellu llinellau amser clir i amlygu anghenion recriwtio staff a Chomisiynwyr. |
| Ymgysylltu aneffeithiol â rhanddeiliaid. | Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.<br>Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau mawr i bolisïau. |
| Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr heb ei weithredu'n effeithiol. | Proses ddylunio ymgynghorol a rhaglen brofi cyn defnyddio'r system mewn etholiad.<br>Treialu'r platfform mewn etholiad lleol cyn y Senedd os bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu amser ar gyfer hynny.<br>Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i weithio gyda'r dylunwyr drwy gydol y broses, ac i weithredu.<br>Adolygu gofynion i gyfieithu unrhyw beth na ddarparwyd yn Gymraeg a Saesneg.<br>Defnyddio ymgynghorydd/arbenigwyr allanol.<br>Cynhyrchu adroddiad dichonoldeb Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr. |

Ystyried y Ffynonellau Sicrwydd

6.3 Mae CDFfC yn cael sicrwydd o amryw ffynonellau, fel adroddiadau cyfarfodydd ac ati. Rhoddir manylion y meysydd sicrwydd allweddol a'u ffynonellau yn Atodiad 3.

## 7 Cyllideb 2024-25 a Datganiadau Ariannol 2023-24

7.1 Adolygodd y Pwyllgor broses monitro cyllideb CDFfC ar gyfer cyllideb 2024-25 ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn, ac roedd o'r farn ei bod yn briodol ac yn gadarn. Adolygodd y Pwyllgor y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2024 cyn i'r archwiliad gael ei gynnal. Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd ac unrhyw faterion a oedd yn weddill yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024 a rhoddwyd barn ddiamod ar 30 Medi 2024.

## 8 Casgliad

8.1 Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, mae'r Pwyllgor wedi gweithredu i safon uchel yn ystod y flwyddyn ac wedi cael effaith gadarnhaol ar CDFfC, gan wella arfer da. Mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd priodol, dibynadwy a chynhwysfawr ar amgylchedd rheoli mewnol CDFfC, ei adroddiadau ariannol a'i allu i reoli risgiau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd CDFfC bum sicrwydd archwilio Sylweddol gan ei archwilwyr mewnol yn deillio o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed. Felly, mae'r Pwyllgor yn fodlon y gall Swyddog Cyfrifyddu CDFfC fod yn rhesymol sicr bod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu CDFfC yn 2024-25 wedi darparu sail gadarn a rhesymol iddi gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

8.2 Drwy gydol 2024-25, mae'r Pwyllgor wedi monitro asesiad risg a pharatoadau CDFfC ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol a roddodd swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru a'r ddyletswydd i arolygu etholaethau'r Senedd yn 2024-25 i CDFfC ac a fydd yn rhoi'r cyfrifoldeb iddo am sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru. Er mwyn ateb yr her hon, mae CDFfC wedi asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig a'u hadolygu'n rheolaidd, wedi penodi dau aelod annibynnol ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a thri aelod ychwanegol o'r bwrdd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod CDFfC wedi cymryd camau digonol i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni heriau'r newidiadau hyn yn y dyfodol.

## 9 Cydnabyddiaethau

9.1 Rwyf yn ddiolchgar i Frank Cuthbert, Dianne Bevan, Kalwant Grewal ac Andrew Blackmore fel aelodau ac aelodau annibynnol o'r Pwyllgor am eu gwaith, eu cyfraniad, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae gwaith rheolwyr CDFfC, gyda chymorth aelodau staff eraill, wedi bod yn ganolog i'n gwaith, a gwerthfawrogir

eu cyfraniadau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Julie Rees o Archwilio Cymru ac Elan Parry o TIAA Ltd. Mae eu cymorth a'u cyngor wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol iawn yn ystod y flwyddyn.

Michael Imperato
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CDFfC
Ebrill 2025

**Atodiad 1**

**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG**

**CYLCH GWAITH**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau yn ymwneud â materion risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth fewnol a llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig. Y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol o dan delerau Dogfen Fframwaith y Comisiwn a'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, am ddarparu rheolaethau mewnol digonol, a bydd yn ystyried cyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, fel y bo'n briodol.

1.2 Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd y Comisiwn yn darparu un sicrwydd archwilio ar gyfer y ddau gorff.

1.3 Penodwyd Prif Weithredwr y Comisiwn yn Swyddog Cyfrifyddu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn effeithiol o 7 Ionawr 2019.

## 2. Aelodaeth

2.1 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei gadeirio fel arfer gan Aelod o'r Comisiwn (cyn belled ag y bo profiad perthnasol ganddo/ganddi), ond bydd yr arfer hwn yn agored i'w adolygu. Ni ddylai Cadeirydd y Comisiwn fod yn Gadeirydd nac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

2.2 Aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw:

- 2 Aelod Allanol Annibynnol penodedig yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru; a
- 2 Aelod o'r Comisiwn (ac eithrio'r Cadeirydd).

2.3 Ni ddylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod yn Ysgrifennydd cyfarfodydd y Comisiwn.

2.4 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei hadolygu o dro i dro.

## 3. Adrodd

3.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adrodd yn ffurfiol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod.

3.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi ei amseru i gefnogi cwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, sy'n crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

3.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Adran Noddi berthnasol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 4. Cyfarfodydd

4.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg alw cyfarfodydd ychwanegol fel y gwêl yn angenrheidiol.

4.2 Amlinellir amseriad y cyfarfodydd a'r meysydd gwaith yr eir i'r afael â nhw yng Nghynllun Gwaith Blynyddol y Pwyllgor. Dylai'r Cynllun Gwaith Blynyddol gael ei lunio erbyn 1 Ebrill a'i adolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg cyn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau.

4.3 Bydd lleiafswm o 3 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd neu'n gweithredu fel Dirprwy Gadeirydd, yn bresennol er mwyn ystyried bod gan y cyfarfod gworwm.

4.4 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu mynychu fel arfer gan y Swyddog Cyfrifyddu, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid, y Pennaeth Busnes a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

4.5 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddogion eraill neu Aelodau o'r Comisiwn fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

4.6 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw rai neu bob un o'r rhai sy'n mynychu fel arfer, ond nad ydynt yn aelodau, dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol.

4.7 Caiff y Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y mae eisiau cyngor y Pwyllgor arnynt.

4.8 Bydd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfod cyfrinachol â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol bob blwyddyn i gael eu hadborth ar effeithiolrwydd y Pwyllgor, ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Ni fydd y trefniant hwn yn atal unrhyw gyfarfodydd ychwanegol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

## 5. Awdurdod a Hawliau

5.1 Awdurdodir y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan y Comisiwn i ymchwilio i unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gwaith. Fe'i hawdurdodir i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae arno ei hangen gan unrhyw weithiwr neu Aelod o'r Comisiwn, a chyfarwyddir pob gweithiwr ac Aelod i gydweithredu ag unrhyw gais gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn sicrhau bod gan y

Comisiwn bolisïau llywodraethu corfforaethol digonol ar waith trwy adolygu Llywodraethu Corfforaethol ym mhob cyfarfod.

5.2 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n hwy na blwyddyn, i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.

5.3 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y Comisiwn, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiwn.

## 6. Mynediad

6.1 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

6.2 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## 7. Cyfrifoldebau

7.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ar:

- Y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu.
- Polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol.
- Y gweithgarwch sydd wedi ei gynllunio a chanlyniadau'r archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol.
- Digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a amlygwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys adroddiad ISA 260 a llythyr rheoli'r archwilwyr allanol.
- Sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad.
- Sicrwydd yn ymwneud â threfniadau diogelwch data TGCh ar gyfer y sefydliad.
- Cadernid trefniadau monitro'r gyllideb.
- Cadernid trefniadau ar gyfer ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Cynigion ar gyfer tendro naill ai am wasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol, neu am brynu gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.
- Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
- Cynigion ar gyfer materion cyfrifyddu dadleuol, fel eithriadau ac esemptiadau cydymffurfio.

## 8. Gofynion gwybodaeth

8.1 Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a amlinellir ym mharagraff 7 uchod, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn y wybodaeth ganlynol, fel y bo'n briodol:

- Adroddiad ar unrhyw adolygiadau o Gofrestr Risg a Pholisi Rheoli Risg y Comisiwn.
- Y Cynllun Archwilio Mewnol.

- Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr Allanol.
- Adroddiadau cynnydd gan gynrychiolydd yr Archwilwyr Mewnol yn crynhoi gwaith a gyflawnwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio ac unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol.
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.
- Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio.
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn eu harchwilio gan yr Archwilwyr Allanol.
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu.
- Y Datganiad Llywodraethu drafft.
- Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ac unrhyw allbynnau archwilio allanol eraill.
- Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu.
- Newidiadau i'r Cynllun Gweithredol.
- Adroddiad ar ystyriaethau cyllideb.
- Adroddiad ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Adroddiad ar drefniadau diogelwch data TGCh.
- Adroddiad ar waith presennol ac arfaethedig Archwilio Cymru.
- Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.

## 9. Cofnodion

9.1 Caiff Cofnodion ei gyfarfodydd eu cylchredeg i holl Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

9.2 Bydd Cofnod Gweithredu o faterion sy'n codi o bob cyfarfod yn cael ei gylchredeg i holl Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol o fewn pythefnos o bob cyfarfod.

## 10. Adolygu'r Cylch Gwaith

10.1 Caiff Cylch Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol o hyd ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau i statws y Comisiwn.

## 11. Dyddiad y Ddogfen: Gorffennaf 2023

**Atodiad 2**

**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**CYLCH GWAITH**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wedi sefydlu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau yn ymwneud â materion risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth fewnol a llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig. Y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol o dan delerau Dogfen Fframwaith y Comisiwn a'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, am ddarparu rheolaethau mewnol digonol, a bydd yn ystyried cyngor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y bo'n briodol.

1.2 Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd y Comisiwn yn darparu sicrwydd archwilio mewnol ac allanol ar gyfer y ddau gorff.

1.3 Penodwyd Prif Weithredwr y Comisiwn yn Swyddog Cyfrifyddu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn effeithiol o 7 Ionawr 2019.

## 2. Swyddogaethau'r Comisiwn

2.1 Mae swyddogaethau'r Comisiwn fel a ganlyn, sef:

- Arolygu ffiniau a threfniadau etholiadol ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru yn barhaus.
- Arolygu ffiniau etholaethau'r Senedd yng Nghymru yn barhaus.
- Cyflawni swyddogaethau Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru.
- Pennu cydnabyddiaeth ariannol a phensiynau aelodau etholedig a chyfetholedig prif gynghorau a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parc Cenedlaethol a chyd-bwyllgorau corfforedig.
- Cynnal Arolygon Cymunedol ac Arolygon Ffiniau Atfor pan fydd yn ofynnol, ac
- Ystyried argymhellion Arolygon Ffiniau Cymunedol a gynhaliwyd gan Brif gynghorau a gwneud y gorchmynion cyfreithiol perthnasol.

## 3. Aelodaeth

3.1 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys:

- O leiaf 2 aelod lleyg allanol, y penodir un ohonynt yn Gadeirydd y Pwyllgor ac un arall yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor.
- O leiaf 2 Aelod o'r Comisiwn (ac eithrio Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn).

3.2 Ni fydd cyfanswm nifer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fwy na 5 aelod.

3.3 Bydd y Rheolwr Cyllid yn gweithredu fel ysgrifennydd ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd yn gyfrifol am bennu'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd, llunio agenda a phapurau'r cyfarfodydd ar gyfer cymeradwyaeth y Cadeirydd a chymryd cofnodion o'r cyfarfodydd.

## 4. Adrodd

4.1 Bydd ysgrifennydd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (y Rheolwr Cyllid) yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n amlinellu penderfyniadau a phrif bwyntiau pob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.2 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi ei amseru i gefnogi cwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, sy'n crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

## 5. Cyfarfodydd

5.1 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio alw cyfarfodydd ychwanegol fel y gwêl yn angenrheidiol.

5.2 Amlinellir amseriad y cyfarfodydd a'r meysydd gwaith yr eir i'r afael â nhw yng Nghynllun Gwaith Blynyddol y Pwyllgor. Dylai'r Cynllun Gwaith Blynyddol gael ei lunio erbyn 1 Ebrill a'i adolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau.

5.3 Bydd lleiafswm o 3 aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y mae'n rhaid i un ohonynt o leiaf fod yn aelod lleyg, yn bresennol er mwyn ystyried bod gan y cyfarfod gworwm.

5.4 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu mynychu fel arfer gan y Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, y Rheolwr Cyllid, y Pennaeth Busnes a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol, oni bai bod y Cadeirydd yn cyfarwyddo fel arall.

5.5 Caiff y Cadeirydd ofyn i unrhyw swyddogion eraill neu Aelodau o'r Comisiwn fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

5.6 Caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i unrhyw rai neu bob un o'r rhai sy'n mynychu fel arfer, ond nad ydynt yn aelodau, dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol.

5.7 Caiff y Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y mae eisiau cyngor y Pwyllgor arnynt.

5.8 Bydd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfod cyfrinachol â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol bob blwyddyn i gael eu hadborth ar effeithiolrwydd y Pwyllgor, ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Ni fydd y trefniant hwn yn atal unrhyw gyfarfodydd

ychwanegol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

## 6. Awdurdod a Hawliau

6.1 Awdurdodir y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan y Comisiwn i ymchwilio i unrhyw weithgarwch yr ystyrir yn rhesymol ei fod o fewn ei gylch gwaith. Fe'i hawdurdodir i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae arno ei hangen gan unrhyw weithiwr neu Aelod o'r Comisiwn, a chyfarwyddir pob gweithiwr ac Aelod i gydweithredu ag unrhyw gais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

6.2 Caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n hwy na blwyddyn, i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.

6.3 Caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y Comisiwn, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiwn.

6.4 Nid yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu.

## 7. Mynediad

7.1 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol, Cadeirydd y Comisiwn, y Swyddog Cyfrifyddu neu unrhyw unigolyn arall, fel yr ystyrir ei bod yn briodol.

7.2 Caiff Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod yn breifat unrhyw bryd, fel yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol.

## 8. Cyfrifoldebau

8.1 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ar:

- Ddigonolrwydd y polisïau llywodraethu corfforaethol sydd ar waith trwy adolygu Llywodraethu Corfforaethol ym mhob cyfarfod.
- Asesu ac adolygu perfformiad trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn, gan gynnwys y gweithgarwch a gynlluniwyd a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol.
- Penodi a therfynu'r darparwr archwilio mewnol.
- Rheoli'r broses ar gyfer penodi gwasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol a phrynu gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio, a gwneud argymhellion i'r Comisiwn ar y materion hyn;
- Digonolrwydd y trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu.
- Y broses ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (neu ddatganiad cyfatebol o 2025 ymlaen), ei gynnwys a'r casgliadau a amlinellir ynddo 2025).
- Polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol.
- Digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a amlygwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys adroddiad Archwiliad o Gyfrifon a llythyr rheoli'r archwilwyr allanol.
- Sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adolygu'r holl bolisïau rheoli perthnasol.
- Sicrwydd yn ymwneud â phob agwedd berthnasol ar drefniadau diogelwch data a gwybodaeth ar gyfer y sefydliad.

- Cadernid trefniadau gosod a monitro'r gyllideb ac adolygu materion ariannol cyffredinol y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw daliadau a godwyd.
- Cadernid trefniadau ar gyfer ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban a goruchwylio'r broses o ymchwilio i bryderon chwythu'r chwiban.
- Asesu ac adolygu trefniadau'r Comisiwn ar gyfer ymdrin â chwynion.
- Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
- Cynigion ar gyfer materion cyfrifyddu dadleuol, fel eithriadau ac esemptiadau cydymffurfio.

## 9. Gofynion gwybodaeth

9.1 Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a amlinellir ym mharagraff 8 uchod, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn y wybodaeth ganlynol, o leiaf:

- Adroddiad ar unrhyw adolygiadau o Gofrestrau Risg a Pholisi Rheoli Risg y Comisiwn.
- Adroddiad blynyddol ar Gofrestr Risg y Bwrdd Rheoli Etholiadol, adroddiadau misol ac unrhyw heriau cyfreithiol i gyfarwyddydau a gyhoeddwyd.
- Y Cynllun Archwilio Mewnol.
- Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr Allanol.
- Adroddiadau cynnydd gan gynrychiolydd yr Archwilwyr Mewnol yn crynhoi gwaith a gyflawnwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio ac unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol.
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.
- Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio.
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn eu harchwilio gan yr Archwilwyr Allanol.
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu.
- Y Datganiad Llywodraethu drafft.
- Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ac unrhyw allbynnau archwilio allanol eraill.
- Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu.
- Newidiadau i'r Cynllun Gweithredol.
- Adroddiad ar ystyriaethau cyllideb.
- Adroddiad ar golledion.
- Adroddiad ar dwyll.
- Adroddiad ar gwynion a dderbyniwyd.
- Adroddiad ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Adroddiad ar drefniadau diogelwch data TGCh.
- Adroddiad ar waith presennol ac arfaethedig Archwilio Cymru.
- Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.

## 10. Cofnodion

10.1 Caiff Cofnodion ei gyfarfodydd eu cylchredeg i holl Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

10.2 Bydd Cofnod Gweithredu o faterion sy'n codi o bob cyfarfod yn cael ei gylchredeg i holl Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol o fewn pythefnos o bob cyfarfod.

## 11. Adolygu'r Cylch Gwaith

11.1 Caiff Cylch Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei adolygu’n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol o hyd ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau i statws y Comisiwn.

## 12. Dyddiad y Ddogfen: Hydref 2024

## Atodiad 3

| Meysydd Allweddol y mae arnynt angen Sicrwydd | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Ffynonellau Sicrwydd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Lefel 1af | 2il Lefel | 3ydd Lefel |
| Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau ac Atebolrwydd | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gofynion Swyddog Cyfrifyddu.<br><br>Strwythur sefydliadol.<br><br>Cynllun dirprwyo.<br><br>Polisïau a Gweithdrefnau. | Adrodd i gyfarfodydd y Comisiwn ar benderfyniadau a wnaed neu i gael cymeradwyaeth.<br><br>Amserlen ar gyfer adolygu polisïau gan y Comisiwn.<br><br>Adolygu strwythurau'n barhaus gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn.<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol – gwahanu dyletswyddau a chydymffurfio â rheolaethau.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu polisïau uniondeb o dro i dro.<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu. |
| Rheoli Risg | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi Risg a Threfniadau Rheoli. | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith ac yn cael ei adolygu gan y Comisiwn yn rhan o'r Gofrestr Risg.<br><br>Y Comisiwn yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob mis.<br><br>Y Gofrestr Risg Weithredol yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli a phwyntiau sbardun yn cael eu gosod ar gyfer codi risgiau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br><br>Y Cofrestrau Risg Pensiynau a TGCh yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r Cofrestrau Gweithredol a Chorfforaethol ym mhob cyfarfod.<br><br>Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Reoli Risg.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r Cofrestrau Risg Pensiynau a TGCh yn flynyddol. |
| Cynllunio Strategol | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Adroddiadau ar Lythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredol i gyfarfodydd y Comisiwn. | Adroddiad ar y Cynllun Strategol i gyfarfodydd y Comisiwn.<br><br>Y Comisiwn yn cytuno ar weledigaeth ac amcanion lefel uchel ar gyfer y sefydliad. | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Gynllunio Strategol. |
| Bod yn Agored ac yn Dryloyw | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gwefan gynhwysfawr yn bodloni disgwyliadau o ran bod yn agored ac yn dryloyw. | Datganiad Polisi Tâl blynyddol | Datganiad Llywodraethu |
| Gwerthoedd a Diwylliant | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Y Tîm Rheoli yn gosod gwerthoedd a diwylliant ar gyfer staff a ategir gan hyfforddiant a phroses Adolygu Perfformiad a Datblygu (PDR). | Ymagwedd y Comisiwn at fod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd yn cyd-fynd ag ymagwedd y Tîm Rheoli. | Adroddiadau i'r Comisiwn ar ganlyniadau Arolygon Staff. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Datganiad Llywodraethu. | Adroddiadau Buddsoddwyr mewn Pobl.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |
| Arweinyddiaeth | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu. | Mae'r Comisiwn yn gosod disgwyliadau penodol ar gyfer y sefydliad mewn Strategaethau a Chynlluniau. | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol. |
| Diogelwch Data a Gwybodaeth | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gweithdrefnau Diogelwch Data a Gwybodaeth ar waith. | Adolygu cydymffurfedd gan y Comisiwn.<br><br>Cofrestr Hyfforddiant Staff sy'n cofnodi cwblhau hyfforddiant staff gorfodol.<br><br>Enwebu Aelod o'r Comisiwn yn Hyrwyddwr TGCh. | Adolygiadau Archwilio Mewnol o dro i dro.<br><br>Adroddiadau ar Ddiogelwch TGCh gan Gymwysterau Cymru i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg |
| Rhyddid Gwybodaeth | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu | Adroddiadau i'r Comisiwn | Adroddiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg |
| Cynllunio'r Gweithlu | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Adroddiadau a luniwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol yn amlygu anghenion staffio.<br><br>Polisi Tâl. | Adroddiadau i Is-bwyllgor y Gweithlu i'w cymeradwyo. | Cymeradwyaeth y Comisiwn ar gyfer newidiadau i'r strwythur staffio |
| Datblygu ein staff a'n haelodau | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cyfnod Sefydlu a Hyfforddiant cynhwysfawr.<br><br>Adolygiadau Perfformiad a Datblygu rheolaidd. | Adroddiad i gyfarfod y Comisiwn ar ganlyniad adolygiadau Buddsoddwyr mewn Pobl. | Adroddiadau adolygu Buddsoddwyr mewn Pobl. |
| Iechyd, Diogelwch a Lles Staff | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi Absenoldeb oherwydd Salwch.<br><br>Polisi Iechyd a Diogelwch.<br><br>Polisi Urddas yn y Gwaith.<br><br>Polisi Chwythu'r Chwiban | Adroddiadau i Is-bwyllgor y Gweithlu. | Adolygu cydymffurfedd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg os oes angen<br><br>Gwobr Iechyd y Gweithle Bach. |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi Cyfle Cyfartal. | Adolygu cydymffurfedd gan y Comisiwn | Adolygu cydymffurfedd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg os oes angen. |
| Cydymffurfio â'r Gymraeg | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cynllun yr Iaith Gymraeg.<br><br>Safonau'r Gymraeg.<br><br>Ceisio sgiliau ac adnoddau Cymraeg yn weithredol | Adolygu a monitro Safonau'r Gymraeg gan y Comisiwn. | Archwiliadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. |
| Darparu Gwasanaeth – Adolygiadau Gwasanaeth gwerth am arian | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Egluro rolau ar gyfer adolygiadau gwasanaeth.<br><br>Amserlenni ar gyfer cynnal adolygiadau.<br><br>Trefniadau rheoli ansawdd ar waith. | Comisiynwyr Arweiniol yn cefnogi'r tîm adolygu ac yn ychwanegu haen arall o reoli ansawdd.<br><br>Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyllidebau | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gydymffurfio â threfniadau rheoli ansawdd.<br><br>Ymgynghoriad Statudol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfarwyddiadau Desg.<br><br>Polisi ac Arferion. | | |
| Darparu Gwasanaeth – ansawdd archwilio | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Y broses dendro a gwerthuso cynigwyr yn erbyn meini prawf penodedig. | Asesiad parhaus o'r rhaglen waith ac allbynnau gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. | Asesiad archwilio mewnol blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |
| Systemau cyllidebol a gymeradwywyd yn ffurfiol | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cyllid y Llythyr Cylch Gwaith yn ogystal â Chyllid Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y flwyddyn.<br><br>Adroddiad ar osod y gyllideb i gyfarfod y Comisiwn | Adrodd i'r Comisiwn ar amcangyfrifon a phroffiliau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu digonolrwydd y System Gyllidebol.<br><br>Adolygiad Archwilio Mewnol blynyddol o Reolaeth Gyllidebol. |
| Atebolrwydd/ dirprwyo cyllidebol | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cynllun Dirprwyo / awdurdodi. | Adolygiad o'r gyllideb gan y Comisiwn. | Adroddiadau Archwilio Mewnol. |
| Risgiau cyllidebol | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Y Tîm Rheoli yn adolygu risgiau cyllidebol yn barhaus. | Cofnodi risgiau ariannol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol at sylw'r Comisiwn. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio adolygiadau'r Comisiwn o risgiau ariannol. |
| Rheolaethau systemau a gwybodaeth ariannol | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cynlluniau dirprwyo rheolaethau ariannol mewnol a gwahanu dyletswyddau. | Adroddiadau monitro cyllidebol misol i'r Comisiwn. | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheolaeth fewnol. |
| Monitro ac adrodd ar y gyllideb | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Adroddiadau ar y gyllideb i'r Tîm Rheoli. | Adroddiadau monitro cyllidebol misol i'r Comisiwn. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu adroddiadau cyllidebol.<br><br>Adroddiadau Archwilio Mewnol. |
| Ymchwilio i amrywiannau/ camau gweithredu | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Esboniadau am amrywiant wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cyllidebol i gyfarfodydd y Comisiwn. | Cymeradwyo'r gyllideb cyn ac ar ôl newidiadau. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllidebol. |
| Rheoli diwygiadau i'r gyllideb | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Y tîm rheoli'n cytuno ar ddiwygiadau i'r gyllideb. | Adroddiadau cyllidebol i gyfarfodydd y Comisiwn i gymeradwyo trosglwyddiadau ac ad-daliadau i Adrannau. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllidebol. |
| Cyfrifon Ariannol | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Manyleb cyswllt ac amserlen ar gyfer paratoi'r Cyfrifon Blynyddol.<br><br>Y Rheolwr Cyllid yn monitro prydlondeb ac ansawdd. | Anfon y cyfrifon drafft at y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'w hadolygu cyn eu harchwilio. | Adroddiad ISA 260 a Llythyr Rheolwyr yr Archwilwyr Allanol.<br><br>Barn a Thystysgrif Archwilio Blynyddol. |
| Adnabod Twyll a Risgiau | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Adolygiadau rheolwyr o'r Gofrestr Risg Weithredol.<br><br>Polisi chwythu'r chwiban ar waith | Adolygiadau'r Comisiwn o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. | Adroddiadau Archwilio Mewnol a chamau gweithredu cytunedig. |
| Strategaeth Wrth-dwyll | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisïau gwrth-dwyll penodol a mabwysiadu gweithdrefnau newydd e.e. gwirio newidiadau i fanylion cyswllt / banc cyflenwyr. | Adolygiadau'r Comisiwn o'r Polisi Twyll. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar unrhyw achosion o dwyll. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Archwiliad Mewnol yn cynyddu ymwybyddiaeth o feysydd risg newydd. |
| Chwythu'r Chwiban | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi chwythu'r chwiban ac ymwybyddiaeth staff. | Adolygiadau'r Comisiwn o'r Polisi Chwythu'r Chwiban | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar achosion o chwythu'r chwiban. |
| Cwynion | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi Cwynion. | Adolygiadau'r Comisiwn o'r Polisi Cwynion. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gwynion a dderbyniwyd. |
| Parhad Busnes | Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Cynlluniau Parhad ar waith a phrofion yn cael eu cynnal o dro i dro.<br><br>Gweithdrefnau ar waith ar gyfer cadw a dinistrio dogfennau.<br><br>Arolwg Lles Staff.<br><br>Trefniadau ymateb i'r pandemig | Adroddiadau diweddaru'n cael eu paratoi ar gyfer y Comisiwn.<br><br>Adolygu a chymeradwyo gweithdrefnau o dro i dro gan y Comisiwn. | Adroddiadau Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y prawf Cynllunio Parhad Busnes. |
| Rheoli Asedau Sefydlog | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Ymarfer dilysu asedau wedi'i gynnal. | Y Comisiwn yn cael gwybod am ganlyniad adolygiadau. | Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar yr ymarfer dilysu asedau. |
| Colledion | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gweithdrefnau amlygu a chofnodi colledion. | Cofrestr Colledion. | Adroddiadau Blynyddol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar golledion ar gyfer y flwyddyn. |
| Rhoddion a Lletygarwch | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Polisi Rhoddion a Lletygarwch. | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar Roddion a Lletygarwch. |
| Caffael | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Trefniadau caffael ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau tendro ffurfiol.<br><br>Diwydrwydd dyladwy wrth ymdrin â chwmnïau nad ydynt yn foesegol o bosibl. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Comisiwn ar ymarferion tendro. | Adroddiadau Archwilio Mewnol ar drefniadau caffael. |
| Materion Amgylcheddol | Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Gweithdrefnau cynaliadwyedd wedi'u sefydlu ac ymwybyddiaeth staff. | Y Comisiwn yn ystyried canlyniad Archwiliad y Ddraig Werdd. | Adroddiad Archwiliad y Ddraig Werdd. |

| | |
|---|---|
| Amcan 1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Sicrhau bod gwaith arolygu'n cael ei gynnal yn effeithiol a bod ardaloedd prif awdurdod yn addas i'r diben. |
| Amcan 2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y busnes, gan fabwysiadu egwyddorion Llywodraeth Cymru lle y bo'n bosibl a chynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol. |